Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Forestry Commission Wales

Bwletin Cynllunwyr Rheolaeth

Coetiroedd gwell i Gymru

Newyddion gan Grantiau a Rheoliadau Comisiwn Coedwigaeth Cymru • Rhifyn 25 • Mai 2010

Cynnwys

Diolch i gynllunwyr
Coedwig gwerth ei hysbysebu
Prosiect creu coetir
Arolwg o goetiroedd fferm
Osgoi cosbau
Rheoli coetiroedd pori
Ffioedd cynllunwyr
Cynlluniau cymeradwy
Parthau clustogi
Cyngor ar arbed amser

Rhifyn nesaf
Rhifyn 26 Gorffennaf 2010

Mae'r rhifynnau presennol ac ôl-rifynnau ar gael ar wefan Comisiwn Coedwigaeth Cymru:
www.forestry.gov.uk/wales

Diolch i gynllunwyr

Diolch yn fawr i gynllunwyr am yr amynedd a'r cydweithrediad a ddangoswyd ganddynt dros y tri mis diwethaf. Roedd rhaid i ni i gyd fod yn eithaf hyblyg o ran y ffordd rydym wedi gweithredu Coetiroedd Gwell i Gymru dros chwarter olaf y flwyddyn ariannol a heb eich cymorth chi byddai wedi bod yn anodd iawn. Roedd mis Mawrth yn fis hynod brysur am i 40% o'r hawliadau, hyd at werth £1,231,299, gael eu prosesu yn ystod mis diwethaf y flwyddyn ariannol.

A oes gennych goedwig sy'n werth ei hysbysebu?

Rydym yn chwilio'n aml am astudiaethau achos Coetiroedd Gwell i Gymru i'w cynnwys mewn straeon a lluniau cyhoeddusrwydd. Os oes gennych berchennog coetir brwd a choetir addas neu gynllun plannu newydd a fyddai'n ateb y diben, yn eich tyb chi, cysylltwch ag **alison.evans@forestry.gsi.gov.uk**

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Prosiect Creu Coetiroedd

Mae Elin Jones, Gweinidog dros Faterion Gwledig, wedi cyhoeddi rhaglen uchelgeisiol newydd ar gyfer plannu coed fel rhan o elfen dargededig Glastir.

Nod y rhaglen yw ymestyn yr ardal o goetir yng Nghymru 100,000 o hectarau dros yr ugain mlynedd nesaf. Byddai ffermwyr yn derbyn grant cyfalaf i sicrhau coetir parhaol ar dir amaethyddol o radd is, ynghyd â chynnal a chadw blynyddol a thaliadau digolledu am golli incwm ar y tir am hyd at 15 mlynedd ar ôl plannu. Tan 2012 bydd Comisiwn Coedwigaeth Cymru'n cyflwyno hyn ac ar ôl y dyddiad hwn caiff ei drosglwyddo i Glastir lefel uwch.

Ers cyhoeddi Strategaeth Coetiroedd i Gymru Llywodraeth Cynulliad Cymru yn 2009 a thair blynedd ar ôl lansio cynllun coetiroedd gwell i Gymru, mae'r pwyslais ar greu coetiroedd wedi'i ehangu er mwyn cynnwys newid yn yr hinsawdd, dal carbon a rheoli dŵr. Gan fod ffermwyr yn berchen ar y rhan fwyaf o dir plannu yng Nghymru, mae eu cyfraniad yn hanfodol er mwyn ymestyn gorchudd coetir y wlad. Fodd bynnag, mae ymchwil yn dangos bod y rhan fwyaf o arian y cynllun Coetiroedd i Gymru yn mynd tuag at y coetiroedd presennol sydd dan reolaeth ac nid tuag at greu coetiroedd newydd.

Mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru wedi dechrau prosiect i sicrhau bod y cynllun grantiau Coetiroedd Gwell i Gymru yn cael eu cynllunio yn y ffordd gywir a bod adnoddau ar waith i ddechrau gweithio tuag at gyrraedd y targed hwn. Roedd hyn wedi arwain at rai newidiadau dros dro i'r tîm G&R. Dros y chwe mis nesaf bydd Rachel Chamberlain yn derbyn rôl rheolwr y prosiect. Bydd Patrick Green yn derbyn swydd rheolwr gweithrediadau a bydd Andy Wright yn derbyn swydd rheolwr gweithrediadau cynorthwyol.

"Nod y rhaglen yw ymestyn yr ardal o goetir yng Nghymru 100,000 o hectarau dros yr ugain mlynedd nesaf"

Arolwg o Goetiroedd Fferm

Gwnaeth Comisiwn Coedwigaeth Cymru gomisiynu arolwg yn 2009 i gasglu sylwadau ffermwyr am eu coetiroedd a'r grantiau coetiroedd rydym yn eu cynnig. Mae'r arolwg wedi darparu gwybodaeth werthfawr o ran pa mor effeithiol yw ein grantiau coetiroedd a sut y gallwn eu gwella.

Gwnaeth Wavehill Consulting gyfweld â 264 o ffermwyr ar ran y Comisiwn Coedwigaeth, gan gynnwys 100, nad ydynt erioed wedi gwneud cais am grant, er bod ganddynt goetiroedd ar eu tir. Gellir lawrlwytho'r arolwg llawn o hafan G&R.
www.forestry.gov.uk/forestry/infd-5z8jcr

Osgoi cosbau

Yn ddiweddar, mae nifer o achosion Coetiroedd Gwell i Gymru wedi methu arolygiadau ac mae cosbau hawliadau grant wedi'u rhoi ar waith. Hoffem atgoffa cynllunwyr am sicrhau bod perchnogion yn gwbl ymwybodol o'r rheolau sydd ar gael i'w gweld yn llyfrgell gyfeirio ar-lein Coetiroedd Gwell i Gymru - AT22 Hawliadau ac archwiliadau grant.
www.forestry.gov.uk/forestry/INFD-6YMLSQ

Mae arolygiadau diweddar o hawliadau wedi amlygu nifer o ddigwyddiadau lle mae'r perchennog neu'r cynllunydd rheoli wedi hawlio am waith sydd naill ai'n dal i barhau neu sydd heb ei gwblhau. Yn aml mae hyn wedi arwain at wrthod yr hawliad cyfan. Os bydd hyn yn digwydd, ni ellir ail-gyflwyno'r gweithrediad neu ei ddiwygio mewn blynyddoedd i ddod. Bydd hefyd yn golygu bod gan yr hawliwr 'statws risg' uwch a gallai effeithio ar Daliad Fferm Unigol y perchennog drwy gosbau tor-gydymffurfiaeth yn erbyn mathau eraill o grantiau sydd ar gael o dan y Cynllun Datblygu Gwledig. Os oes gennych unrhyw bryderon siaradwch â swyddog coetir cyn cyflwyno'r hawliad.

Rheoli coetiroedd pori

Mae Comisiwn Coedwigaeth yr Alban wedi llunio llawlyfr defnyddiol newydd o'r enw **Management of ancient wood pasture**. Gellir ei lawrlwytho fel pdf. o'u gwefan
www.forestry.gov.uk/forestry/INFD-7XQFXR

Ffioedd Cynllunwyr

Mae rhestr gyflawn a diwygiedig o'r holl ffioedd sy'n ddyledus i gynllunwyr rheoli ac aseswyr arbenigol i'w gweld yn llyfrgell gyfeirio Coetiroedd Gwell i Gymru o dan y teitl IN04 Canllaw Grantiau.
www.forestry.gov.uk/forestry/INFD-6YMLZF

Peidiwch ag aros am y cyfraddau newydd!

Mae adolygiad o gyfraddau grantiau ar gyfer creu coetiroedd newydd drwy'r cynllun Coetiroedd Gwell i Gymru'n mynd rhagddo.

Er na fydd canlyniad yr adolygiad hwn yn hysbys tan yn ddiweddarach eleni, mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru'n rhagweld y bydd cyfraddau grantiau'n codi.

Er mwyn annog tirfeddianwyr i barhau i blannu coetiroedd newydd, mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd pob cyhoeddiad newydd i greu coetiroedd a wnaed o 1 Ebrill 2010 neu a gyflwynwyd eisoes yn gymwys i gael cyfraddau diwygiedig y grantiau.

Bydd y cyfraddau newydd hefyd yn berthnasol i gynlluniau Coetiroedd Gwell i Gymru sydd wedi'u cymeradwyo eisoes ond nad ydynt wedi cael eu hawlio.

Dywedodd Richard Siddons, pennaeth Grantiau a Rheoleiddio yng Nghomisiwn Coedwigaeth Cymru,

"Lansiwyd Coetiroedd Gwell i Gymru yn 2007 ac, ers hynny, mae costau gweithredol ar gyfer creu coetiroedd wedi newid. Diben yr adolygiad hwn yw sicrhau bod cyfraddau ein grantiau'n unol â'r costau presennol.

Rydym yn ymwybodol y gallai'r adolygiad hwn arwain at ansicrwydd a gallai annog tirfeddianwyr i oedi cyn ymuno â Choetiroedd Gwell i Gymru rhag ofn i'r cyfraddau godi. Felly rydym wedi penderfynu y bydd yr holl geisiadau i greu coetiroedd a wneir o 1 Ebrill 2010 neu a gyflwynwyd eisoes yn gymwys i gael cyfraddau grantiau newydd y disgwyliwn iddynt fod yn uwch.

Gobeithiwn y bydd y penderfyniad hwn yn golygu y bydd tirfeddianwyr yn parhau i anfon eu ceisiadau i mewn fel y gallwn osgoi ymchwydd yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Gall coetiroedd ddarparu llawer o fanteision ar gyfer tirfeddianwyr - cysgod, rheoli dŵr, cynnydd o ran bioamrywiaeth, gwelliannau i'r dirwedd a choed - ac rydym yn eu hannog i edrych ar y grantiau a'r cyngor arbenigol am ddim sydd ar gael drwy gynllun Coetiroedd Gwell i Gymru."

Caiff cyfraddau grantiau newydd eu cyhoeddi'n ddiweddarach eleni ar wefan Comisiwn Coedwigaeth Cymru. Bydd staff yn cysylltu â holl ddeiliaid contractau Coetiroedd Gwell i Gymru sydd wedi cymeradwyo cynlluniau ar gyfer plannu newydd i'w cynghori ar sut i hawlio'r cyfraddau diwygiedig.

CADW a pharthau clustogi

Yn dilyn cyngor gan CADW, rydym wedi newid y parth clustogi lle mai dim ond ar Henebion Cofrestredig o fewn 100 metr i goetiroedd Coetiroedd Gwell i Gymru y bydd angen ymgynghori.

Cyngor arbed amser ar weithio mewn GLOS

Pan fyddwch yn llunio cynllun yn statws cynllunydd rheoli, er enghraifft gosod gweithrediadau a nodweddion, defnyddiwch y botwm CADW A DILYSU yn rheolaidd. Mae hyn nid yn unig yn cadw eich gwaith ond hefyd yn dilysu ac yn gwirio eich gwaith tra eich bod wrthi.

Pan fyddwch yn gweithio drwy weithrediadau achos Coetiroedd Gwell i Gymru, cofiwch bwyso'r botwm DIWEDDARU SYMIAU GRANTIAU, sydd ar waelod y dudalen. Mae hyn yn sicrhau y caiff symiau grantiau eu cyfrifo'n gywir.

Manylion cysylltu...

Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Forestry Commission Wales

Ymholiadau cyffredinol, ffoniwch: **0300 068 0300**
neu ewch i: **www.forestry.gov.uk/wales**
Ymholiadau technegol, anfonwch e-bost: **bww.ts@forestry.gsi.gov.uk**
Gwasanaeth Grantiau a Thrwyddedau Ar-lein (GLOS): **www.eforestry.gov.uk**
Awgrymiadau ar gyfer rhifynnau yn y dyfodol: **alison.evans@forestry.gsi.gov.uk**